



Uchafbwyntiau Ymchwil

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
2016/17

Ymchwil a Datblygu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n ymwneud ag amrywiaeth eang o ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ymchwil yn rhan hanfodol o'r hyn a wnawn fel sefydliad, ac yn ein galluogi i ddeall y dulliau mwyaf effeithiol o wella iechyd a llesiant y rhai sy'n byw yng Nghymru a thu hwnt. Fel poblogaeth, rydym yn dal i wynebu heriau sylweddol megis yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus mewn disgwyliad oes, gordewdra yn ystod plentyndod, lleihau'r defnydd cyffredinol o ofal iechyd, a chynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol a allai dreulio mwy o flynyddoedd mewn afiechyd. Mae gan ymchwil rôl bwysig i'n helpu ni i ymdrin â'r heriau hyn a'u goresgyn yn effeithiol. Mae'n ein galluogi i nodi ac ymchwilio i'r meysydd hynny lle mae bylchau yn y dystiolaeth, ac yn cynhyrchu gwybodaeth newydd sy'n arwain cyfeiriad ein gwaith yn y dyfodol fel sefydliad iechyd cyhoeddus. Mae gwaith ymchwil hefyd yn pennu ymhle rydym yn buddsoddi adnoddau yn y blynyddoedd i ddod, ac yn cael effaith gadarnhaol ar bolisi ac ymarfer iechyd cyhoeddus yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Ers lansio ein [Strategaeth Ymchwil](#) yn 2015, rydym wedi gwneud cynnydd mawr wrth ddatblygu ymchwil o fewn y sefydliad ac rydym yn falch o'n hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Yn ogystal â'r arian a dderbyniwyd gan [Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru](#)¹ i gefnogi cyflwyno'r ymchwil, rydym hefyd wedi llwyddo i ennill grantiau gan noddwyr cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae cyfleoedd cyffrous o'n blaenau i gryfhau a datblygu partneriaethau cydweithredol newydd a chynyddu ymhellach ehangder yr ymchwil o ansawdd uchel yr ydym yn ymwneud ag ef yn unol â'n hamcanion sefydliadol. Rydym yn gobeithio eich bod yn cytuno bod yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg pwysig ar y gweithgarwch ymchwil sy'n digwydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Wrth i'n gweithgarwch Ymchwil a Datblygu barhau i dyfu a datblygu, edrychwn ymlaen at weithio gyda chi er mwyn sicrhau gwelliannau yn iechyd a llesiant y boblogaeth.

Dr Alisha Davies
Pennaeth Ymchwil a Datblygu
Iechyd Cyhoeddus Cymru



“

Mae ymchwil yn hanfodol i'n helpu ni i ddatblygu'r dystiolaeth ar gyfer yr ymyriadau mwyaf effeithiol i helpu i wella iechyd y genedl. Mae'n hanfodol o ran ein galluogi i ddeall ymhellach yr agweddau, yr ymddygiadau a'r ffactorau sy'n gyrru ymddygiadau nad ydynt yn iach ac sy'n parhau anghydraddoldebau iechyd.

Dr Alisha Davies

”

¹ Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn sefydliad cenedlaethol, wedi'i ariannu a'i oruchwylio gan Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru. Mae'n rheoli dyraniad cyllid ymchwil a datblygu y GIG ar gyfer holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru (gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru) ac mae'n darparu seilwaith i gefnogi a thyfu ymchwil a datblygu.


Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn rhifau...

Blwch 1. Y ffigurau allweddol ar gyfer gweithgarwch ymchwil yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17



10

prosiect ymchwil
newydd
yn cael caniatâd
ymchwil gan y GIG



24

prosiect ymchwil
gweithredol
mewn unrhyw
fis unigol



124

cyhoeddiad
academaidd
yn 2016
(Ionawr-Rhag 2016)

£307,801

incwm ymchwil allanol
a ddyfarnwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru
(cynnydd o **43%** ar y flwyddyn
ariannol flaenorol (2015/16)).

£209,713

wedi'i dderbyn gan Lywodraeth
Cymru i gefnogi ymchwil yn
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Uchafbwyntiau ymchwil

Mae'r adran ganlynol yn tynnu sylw at rai o'r prosiectau ymchwil rhagorol sydd wedi'u cwblhau neu sydd ar y gweill ar draws y sefydliad ar hyn o bryd. Gellir gweld ein hadroddiadau ymchwil a'n cyhoeddiadau ar dudalen **we Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru**².

Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod

Kathryn Ashton, Dr Kat Ford a'r Athro Karen Hughes – Cyfadran Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol³



Kathryn Ashton



Dr Kat Ford



Yr Athro Karen Hughes

Pam wnaethon ni gynnal y prosiect ymchwil hwn?

Nod yr astudiaeth hon oedd mesur mynychder Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs) a'u cysylltiad ag iechyd oedolion yng Nghymru. Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod straen trawmatig cronig yn ystod plentyndod cynnar yn cynyddu risgiau unigolion o gymryd rhan mewn ymddygiadau sy'n niweidio iechyd, datblygu iechyd corfforol a meddyliol gwael, ac yn y pen draw dioddef marwolaeth gynamserol. Mae deall pa grwpiau poblogaeth y mae ACEs yn effeithio arnynt fwyaf, sut mae ACEs yn effeithio ar iechyd a llesiant cymdeithasol, a'r effaith y maent yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn hanfodol er mwyn datblygu ymatebion effeithiol a darbodus gan sawl sector.

Sut wnaethon ni hyn?

Cynhaliwyd arolwg wyneb yn wyneb o dros 2000 o oedolion (18-69 oed) sy'n byw yng Nghymru. Gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr ynghylch ACEs a'u hymddygiadau iechyd, canlyniadau iechyd a'u defnydd o ofal iechyd cyfredol.

I ba gasgliadau y daethon ni?⁴

Canfu'r arolwg o bob 100 o oedolion yng Nghymru, y dioddefodd 47 o leiaf un ACE yn ystod eu plentyndod, gydag 14 yn dioddef pedwar neu fwy. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod dioddef pedwar ACE neu fwy yn cynyddu'r siawns o yfed risg uchel pan yn oedolyn o bedair gwaith, o gael llesiant meddyliol isel o bum gwaith, o fod yn ysmygwr o chwe gwaith ac o gymryd rhan mewn trais yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o oddeutu 14 gwaith (Ffigur 1). Mae hefyd yn dyblu'r risgiau o ddefnyddio meddygon teulu yn aml a chael diagnosis o glefyd cronig. Mae'r astudiaeth hefyd yn amcangyfrif baich ymddygiadau niweidio iechyd ar y GIG y gellid fod wedi'i osgoi pe bai ACEs yn cael eu hatal ledled Cymru (Ffigur 1).

Mae dioddef pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn dyblu'r risgiau o ddefnyddio meddygon teulu yn aml a chael diagnosis o glefyd cronig

2 <http://www.arsyllfaiechydscyhoedduscymru.wales.nhs.uk/cyhoeddiadau-staff>

3 Mae'r Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol yn cynnwys tair is-adran: Polisi Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Rhyngwladol ac Ymchwil a Datblygu. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cefnogi datblygu dysgu lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o bolisiau, ymchwil ac ymarfer i gefnogi'r sefydliad ehangach a'n partneriaid ledled Cymru a thramor.











4 Mae adroddiad yr astudiaeth ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru - [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/77d051ad7fad077c80257f370038b0b7/\\$FILE/ACE%20Report%20FINAL%20\(W\).pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/77d051ad7fad077c80257f370038b0b7/$FILE/ACE%20Report%20FINAL%20(W).pdf). Mae dadansoddiad pellach o ganlyniadau'r arolwg hefyd wedi'i gyhoeddi'n academiaidd, gweler <https://bmcpyschiatry.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12888-017-1305-3>

Ffigur 1. Risgiau uwch o ymddygiad sy'n niweidio iechyd gyda 4 neu fwy o ACEs a gostyngiadau cysylltiedig mewn ymddygiadau sy'n niweidio iechyd pe bai ACEs yn y dyfodol yn cael eu hatal

O'u cymharu â phobl heb unrhyw ACE, mae'r rheiny â 4+ ACE:

4	gwaith yn fwy tebygol o fod yn yfwyr risg uchel
6	gwaith yn fwy tebygol o fod wedi beichiogi neu achosi beichiogi nas bwriadwyd yn yr ardegau
6	gwaith yn fwy tebygol o smygu sigarêts neu dybaco
6	gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhyw o dan 16 oed
11	gwaith yn fwy tebygol o fod wedi smygu cannabis
14	gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddiodefwr trais yn y 12 mis diwethaf
15	gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn person arall yn y 12 mis diwethaf
16	gwaith yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio crack cocaine neu heroin
20	gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu carcharu unrhyw bryd yn ystod eu bywyd

Gallai atal ACE i genedlaethau'r dyfodol leihau lefelau:

 Defnyddio heroin/crack cocaine (trwy gydol bywyd) o 66%	 Carcharu (trwy gydol bywyd) o 65%	 Cyflawni trais (y flwyddyn ddiwethaf) o 60%	 Dioddef trais (y flwyddyn ddiwethaf) o 57%	 Defnydd o gannabis (trwy gydol bywyd) o 42%
 Beichiogi nas bwriadwyd yn yr ardegau o 41%	 Yfed risg uchel (presennol) o 35%	 Rhyw yn gynnar (cyn 16 oed) o 31%	 Smygu tybaco neu e-sigarêts (presennol) o 24%	 Deiet gwael (presennol; <2 ddiam o ffwythau a llysiau y dydd) o 16%

Ffynhonnell: Ffeithluniau ACEs yng Nghymru

Beth a newidiwyd o ganlyniad i'r ymchwil hwn?

Mae'r canlyniadau wedi'u rhannu gyda sefydliadau allweddol ledled Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chyhoeddus ac mewn cynadleddau cenedlaethol. Mae wedi cael effaith sylweddol i Gymru, gan gynnwys buddsoddiad o £400,000 gan Lywodraeth Cymru i Cymru Well⁵ greu Hyb ACEs⁶ i fynd i'r afael ag effaith ACEs. Mae ail astudiaeth lefel poblogaeth ACEs bellach yn edrych ar ffactorau gwydnwch sy'n gallu amddiffyn pobl sy'n cael eu heffeithio gan ACEs rhag dioddef eu heffeithiau niweidiol.

 **I gael gafael ar adroddiadau a ffeithluniau'r astudiaeth, ewch i:**
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518>

 **I ddarllen erthygl newyddion y BBC ar yr astudiaeth hon, ewch i:**
<http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-37787959>

5 Mae hyn yn cynnwys sawl sefydliad sydd wedi ymrwmo i gydweithio i wella iechyd a llesiant pobl Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88541>

6 Llywodraeth Cymru 2017 *Hyb i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentynod*. Ar gael yn: <http://gov.wales/newsroom/people-and-communities/2017/170119-adverse-childhood-experiences/?lang=cy> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

Dywedodd Yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol:

Darparu amgylcheddau diogel a meithringar ar gyfer pob plentyn yng Nghymru yw'r ffordd orau o sicrhau ein bod yn magu oedolion mwy iach a hapus sy'n cyfrannu at eu cymunedau a'r economi. Dyma un o'r rhesymau pam mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gyda phartneriaid.



PROTECT: treial dichonolrwydd o ymyriad seicogymdeithasol i leihau risg firws a gludir yn y gwaed

Dr Noel Craine – Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus⁷



Dr Noel Craine

Pam wnaethon ni gynnal y prosiect ymchwil hwn?

Er bod ymyriadau lleihau niwed wedi lleihau firysau a gludir yn y gwaed (BBV) ymysg pobl sy'n chwistrellu cyffuriau (PWID), mae rhai PWID yn parhau i rannu offer chwistrellu. Roedd yr astudiaeth PROTECT yn datblygu a phrofi ymyriad grŵp i leihau ymddygiad risg BBV.

Sut wnaethon ni hyn?

Datblygwyd yr ymyriad PROTECT ar y cyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth, gwneuthurwyr polisi ac academyddion ac roedd yn cynnwys tair sesiwn awr wythnosol wedi'u cyflwyno i grwpiau o'r un rhyw. Cafodd PWID oedd yn mynychu gwasanaethau caethiwed/ lleihau niwed cymunedol neu gyfnewid nodwyddau, o ledled y DU, eu dosbarthu ar hap i dderbyn naill ai'r ymyriad grŵp ynghyd â thaflen ar drosglwyddo BBV, neu'r daflen yn unig. Cafodd ymddygiad chwistrellu a rhywiol, hunaneffeithiolrwydd a chynlluniau i osgoi ymddygiadau risg, a gwybodaeth am drosglwyddo BBV eu hasesu ar y llinell sylfaen, ar ddiwedd yr ymyriad, a mis ar ôl yr ymyriad. Arweiniwyd yr ymchwil gan King's College Llundain ac yn ogystal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, roedd yn cynnwys Prifysgol Gorllewin yr Alban, Prifysgol Efrog a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.



I ba gasgliadau y daethon ni?⁸

Canfuom fod y cyfranogwyr nad oeddent yn mynychu unrhyw sesiynau ymyrryd yn fwy tebygol o fod yn ddigartref, eu bod wedi chwistrellu cyffuriau ar fwy o ddiwrnodau yn ystod y mis diwethaf, a defnyddio mwy o nodwyddau o Gyfnewidfa Nodwyddau yn y mis diwethaf na'r rhai a fynychodd o leiaf un sesiwn. Nodwyd llai o arferion risg chwistrellu, gwell hunaneffeithiolrwydd, gwell gwybodaeth am drosglwyddo hepatitis C a B, a mwy o ddefnydd o dechnegau atal symptomau rhoi'r gorau i gyffuriau yn y grŵp ymyrraeth o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Arweiniodd y cyfraddau recriwtio a chadw cyffredinol yn y treial hwn i ni ddod i'r casgliad nad yw'r canfyddiadau'n cefnogi symud i dreial llawn. Fodd bynnag, canfu PWID nad oedd gwybodaeth am drosglwyddo BBV yn rhan o'u sgysiau arferol gyda gweithwyr allweddol ac ymarferwyr a chrosawyd y posibilrwydd o drafod technegau chwistrellu, gofal gwythiennau da a throsglwyddo BBV.

Beth a newidiwyd o ganlyniad i'r ymchwil hwn?

Darparodd yr ymyriad wybodaeth werthfawr, gan ddangos yr angen am well ymgorffori lleihau risg BBV yng ngwaith gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yn ogystal, lluniwyd dogfen bolisi i randdeiliaid, ac yn fwy cyffredinol, mae'r astudiaeth wedi amlygu perthnasedd cynlluniau astudiaeth rheoli ar hap o fewn ymchwil iechyd cyhoeddus.



Cyflwynodd Dr Craine gyflwyniad ar yr astudiaeth PROTECT yn ein Cynhadledd Ymchwil yng Nghymru 2017. I ddarllen mwy ewch i: <https://research.publichealthnetwork.cymru/cy/newyddion-chyllid/public-health-research-policy-and-practice-working-together-wales-conference/protect-study-feasibility-trial-psychosocial-intervention-reduce-blood-borne-virus-bbv-risk/>

⁷ Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus yn cynnwys yr adrannau Diogelu Iechyd, Microbioleg a Sgrinio. Mae ganddynt gylch gorchwyl eang, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i oruchwyliaeth clefydau trosglwyddadwy, parodrwydd ac ymateb brys, unedau cyfeirio a labordai microbioleg, sgrinio newydd-anedig, sgrinio coluddyn, a Bron Brawf Cymru.

⁸ Mae'r prif bapur astudiaeth wedi'i gyhoeddi yn yr Harm Reduction Journal (<https://doi.org/10.1186/s12954-017-0142-5>). Mae papur wedi'i gyflwyno i'r International Journal of Drug Policy yn edrych ar ddylanwadau ar ymddygiadau risg firws sy'n cael ei gludo yn y gwaed.

Deall ymateb yr heddlu i bobl sy'n agored i niwed a risg

Janine Roderick, Dr Kat Ford ac Emma Barton – Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol



Janine Roderick



Dr Kat Ford



Emma Barton

Pam wnaethon ni gynnal y prosiect ymchwil hwn?

Mae'r galwadau ar blismona wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf gydag 89% o gyswllt Heddlu De Cymru (HDC) â'r cyhoedd nawr yn ymwneud â materion cymhleth o ran llesiant, diogelwch y cyhoedd a bod yn agored i niwed. Mae hyn yn golygu bod yr heddlu mewn sefyllfa dda i gymryd camau cynnar i atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACEs). Mae HDC yn cydnabod pwysigrwydd datblygu eu hymateb i bobl sy'n agored i niwed ac ymyrraeth gynnar ac maent wedi gyrru'r agenda ar lechyd Cyhoeddus a Phlisona yn y DU. Fel rhan o brosiect ehangach ar gyfer plismona ac ACEs, cynhaliwyd yr astudiaeth ymchwil hon i ddeall y system gyfredol sydd ar waith yn Ne Cymru ar gyfer cyswllt ac ymateb yr heddlu wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o niwed.

Mae **89%** o gyswllt Heddlu De Cymru (HDC) â'r cyhoedd yn ymwneud â materion cymhleth o ran llesiant, diogelwch y cyhoedd a bod yn agored i niwed.

Sut wnaethon ni hyn?

Defnyddiwyd sawl dull ymchwil gan gynnwys dadansoddiad o atgyfeiriadau diogelu'r heddlu ac ymchwil ansoddol (arsylwadau, cyfweiliadau, grwpiau ffocws) gyda'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol a'r cyhoedd. Cynhaliwyd cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda'r heddlu a phartneriaid statudol i nodi pa weithdrefnau a phrotocolau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer adnabod a rheoli pobl sy'n agored i niwed ac i archwilio gwaith rhyngasiantaethol. At hynny, cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag aelodau o'r cyhoedd i ddeall disgwyliadau'r cyhoedd o ran yr ymateb i bobl sy'n agored i niwed gan yr heddlu ac asiantaethau eraill.



I ba gasgliadau y daethon ni?

O ganlyniad i ganfyddiadau'r ymchwil, datblygwyd cyfres o argymhellion i'w treialu a'u profi mewn partneriaeth â chydweithwyr heddlu gweithredol, gofal cymdeithasol a gweithwyr diogelu proffesiynol. Cytunwyd i weithredu'r rhain yn HDC. Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad i'r heddlu dreialu Hyfforddiant Plismona Pobl sy'n Agored i Niwed wedi'i lywio gan ACE (AIAPVT) a gyflwynwyd yn ystod 2017 a'i werthuso'n annibynnol gan lechyd Cyhoeddus Cymru.

Beth a newidiwyd o ganlyniad i'r ymchwil hwn?

Nod yr hyfforddiant yw rhoi dealltwriaeth i staff HDC o effaith ACEs ac ymyriadau wedi'u llywio gan drawma yn ogystal â chynyddu hyder staff yr heddlu wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed, a'u galluogi i weithio'n well gydag asiantaethau eraill yn eu hymateb i gefnogi pobl sy'n agored i niwed. Bydd canfyddiadau'r ymchwil a gwerthusiad pellach o'r argymhellion ar gyfer treialu a phrofi yn gweld y prosiect yn trosglwyddo i raglen waith ar draws y sefydliad. Yn ychwanegol at y gwerthusiad AIAPVT, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n asesu'n annibynnol cynllun peilot o ddull ymyrraeth gynnar aml-asiantaeth strwythuredig at bobl sy'n agored i niwed gyda Thimau Plismona Bro (NPTs). Mae hyn wedi cynnwys gwerthuso'r broses o newid yn y trefniadau prawf newydd rhwng NPTs a thîm cymorth cynnar yr awdurdod lleol, rôl y cydlynwyr ACE yn y trefniant peilot sy'n ymwneud yn benodol â chefnogi newid yn yr heddlu ac effaith tymor hwy y rhaglen AIAPVT.



Rhoddodd y Prif Arolygydd John Wainwright (Heddlu De Cymru) a Shaun Kelly (Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)) gyflwyniad ar y cyd ar y cydweithio rhwng Heddlu De Cymru, NSPCC a ICC i ddeall ymateb yr Heddlu i bobl sy'n agored i niwed yn ein Cynhadledd Ymchwil yng Nghymru 2017. I ddarllen mwy, ewch i:

<https://research.publichealthnetwork.cymru/cy/newyddion-chyllid/public-health-research-policy-and-practice-working-together-wales-conference/collaboration-between-south-wales-police-nsppc-phw-understand-police-response-vulnerability/>

Gwerthuso potensial defnyddio offeryn arsylwi ar gyfer rhyngweithio rhwng rhieni a phlant yn ystod pythefnos cyntaf bywyd

Dr Aideen Naughton - Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol⁹



Dr Aideen Naughton

Mae camdriniaeth emosiynol yn cael effeithiau dwys ar yr ymennydd sy'n datblygu ond mae'n anoddaf i'w nodi yn ystod babandod

Pam wnaethon ni gynnal y prosiect ymchwil hwn?

Mae esgeulustod plant yn bryder iechyd cyhoeddus arwyddocaol ac mae iddo ganlyniadau andwyol yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae camdriniaeth emosiynol yn cael effeithiau dwys ar yr ymennydd sy'n datblygu ond mae'n anoddaf i'w nodi yn ystod babandod. Mae angen nodi babanod sydd mewn perygl o esgeulustod a cham-drin emosiynol trwy arsylwi cynnar o'r rhyngweithio rhwng rhieni a phlant, fel y gall gweithredu ymyriadau arwain at well canlyniadau i blant. Mae'r astudiaeth hon yn ceisio gwerthuso dichonoldeb defnyddio offeryn arsylwi, sydd wedi'i ddilysu o'r blaen i'w ddefnyddio rhwng 2 a 7 mis oed, yn llawer cynharach.

Sut wnaethon ni hyn?

Datblygwyd y protocol gyda Phrifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac roedd rhieni yn rhan o gynllunio'r astudiaeth. Cafodd menywod a gafodd eu derbyn i'r ysbyty er mwyn sbarduno geni eu recriwtio. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys cynnal arsylwadau Graddfa Arsylwi Rhyngweithio rhwng Rhieni a Babanod (PIIOS) ar ddau achlysur, y cyntaf o fewn pythefnos cyntaf bywyd (Adeg 1) a'r ail rhwng 8 a 10 wythnos oed (Adeg 2).

I ba gasgliadau y daethon ni?

Roedd canfyddiadau'r astudiaeth yn cynnwys recriwtio cyfranogwyr addas yn gymharol hawdd, cwblhau holiaduron data cyflawn a derbynoldeb yr arsylwadau ar adeg 1 ac adeg 2. Gan ddefnyddio'r PIIOS, roedd hi'n bosibl sgorio ar draws 10 o'r 13 eitem gyda baban effro pythefnos oed.

Beth a newidiwyd o ganlyniad i'r ymchwil hwn?

Mae adroddiad diwedd astudiaeth wedi argymhell bod treial a phrawf o system sgorio wedi'i addasu (yn seiliedig ar y PIIOS) yn cael ei ddatblygu ar gyfer astudiaeth gan ddefnyddio maint sampl mwy. Bydd angen astudiaeth bellach er mwyn asesu a all dull o'r fath gynhyrchu'n ddibynadwy offeryn sgrinio dilys cyson i asesu ymatebolrwydd neu atyniad sensitif rhieni yn y cyfnod cynnar hwn.



⁹ Mae gan y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Perthynol gyfrifoldeb eang gan gynnwys dyletswydd tuag at reoli risg a gwybodaeth, ansawdd a nyrsio yn ogystal â gwasanaeth diogelu. Mae'r Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd o fewn y Gyfarwyddiaeth.

Bywyd ar ôl Diagnosis Canser y Brostad

Dr Dyfed Wyn Huws¹⁰, Dawn Allan a Janet Warlow -
Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant¹¹



Dr Dyfed Wyn Huws

Pam ydyn ni'n cynnal y prosiect ymchwil hwn?

Canser y brostad yw'r canser mwyaf cyffredin mewn dynion yng Nghymru. Mae nifer y dynion â'r clefyd yn cynyddu a gall triniaeth effeithio ar ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd (HRQL) dynion a'u partner/priod. Yn ychwanegol at wella triniaeth, mae'n bwysig i fesur canlyniadau sy'n bwysig i gleifion a'u partner/priod fel bod modd teilwra gwasanaethau i gwrdd ag anghenion dynion. Prif nodau'r prosiect ymchwil hwn yw:

- disgrifio HRQL (ee corfforol, seicogymdeithasol) dynion â chanser y brostad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil;
- archwilio a yw HRQL yn gysylltiedig â chlefyd, triniaeth neu nodweddion cleifion a sut felly, neu a yw'n cael ei ragweld ganddynt, i helpu i ddatblygu polisi gofal iechyd a chyflenwi gwasanaethau i fodloni anghenion dynion o'r fath a'u teuluoedd yn well;
- disgrifio lefelau grymuso cleifion ac archwilio'r rhyngweithio rhwng grymuso cleifion a HRQL.



Sut mae'r ymchwil yn cael ei wneud?

Arweinir yr astudiaeth gan Brifysgol Leeds a Phrifysgol y Frenhines, Belfast, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r sefydliad arweiniol i Gymru trwy Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru. Yr astudiaeth yw'r cyntaf o'i math ar gyfer canser y brostad, ac mae'n astudiaeth fawr DU gyfan o garfan o ddynion a gafodd ddiagnosis o ganser y brostad. Mae'r carfanau o ddynion a nodwyd o gofrestrfeydd canser yn cwblhau holiadur trawsdoriadol wedi'i ddilysu trwy'r post 12 mis ar wahân. Mae'r astudiaeth yn cynnwys i raddau sylweddol gyfraniad gan grwpiau trydydd sector a grwpiau cleifion canser y brostad, gan gynnwys yn y fethodoleg, dylunio holiaduron ac ysgrifennu'r adroddiad, yn ogystal â phapurau a adolygir gan gymheiriad.

Beth ydych chi'n disgwyl fydd yn newid o ganlyniad i'r ymchwil hwn?

Bydd y canfyddiadau yn galluogi darparwyr gwasanaethau'r DU i gynllunio eu gwasanaethau'n well gyda llunwyr polisi, cleifion a'r trydydd sector er mwyn gwella HRQL. Caiff hyn ei gynorthwyo trwy gynnwys clinigwyr a sefydliadau'r GIG o'r cychwyn cyntaf.



Mae'r astudiaeth yn astudiaeth ledled y DU ac fe'i hariennir gan Prostate Cancer UK mewn partneriaeth â Menter Canlyniadau Iechyd Sefydliad Movember (www.lifeafterprostatecancerdiagnosis.com).

I ddarllen am nodau'r astudiaeth, bwriadau a chyhoeddiadau cynlluniedig, ewch i:

10.1136/bmjopen-2016-013555¹²

¹⁰ Prif Ymchwilydd Cymru.

¹¹ Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant yn cynnwys yr Adranau Gwella Iechyd a Gwybodaeth Iechyd, y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol a Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Integredig. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel y Rhaglen Blynyddoedd Cynnar, Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru a'r Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru. Mae yna hefyd y Timau Iechyd Cyhoeddus Deintyddol, Optometrig, Fferyllol, yn ogystal â gwasanaethau eraill.

¹² Downing A, Wright P, Wagland R, Watson E, Kearney T, Mottram R, Allen M, Cairnduff V, McSorley O, Butcher H, Hounsoume L, Donnelly C, Selby P, Kind P, Cross W, Catto JWH, Huws D, et al. Life after prostate cancer diagnosis: protocol for a UK-wide patient-reported outcomes study. *BMJ Open* 2016;6:e013555. doi:10.1136/bmjopen-2016-013555

Dull iechyd cyhoeddus i ymateb i ddigwyddiadau diweithdra torfol

Dr Alisha Davies, Lucia Homolova, Dr Charlotte Grey a'r Athro Mark Bellis – Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol



Dr Alisha Davies



Lucia Homolova



Dr Charlotte Grey



Yr Athro Mark Bellis

Pam wnaethon ni gynnal y prosiect ymchwil hwn?

Gall Digwyddiadau Diweithdra Torfol (MUE) gael effaith niweidiol amlwg ar sefyllfa iechyd, cymdeithasol ac ariannol unigolion a theuluoedd, a gallant ansefydlogi cymunedau lleol. Mae manteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd clir i ymateb i'r digwyddiadau hyn, ond yn aml mae'r ffocws yn bennaf ar hyfforddiant a chefnogaeth alwedigaethol i sicrhau ailgyflogaeth ar gyfer y rheiny sydd wedi'u diswyddo. Ceir ychydig iawn neu ddim ystyriaeth o ran iechyd a chanlyniadau tymor hwy diweithdra torfol, na'r effaith ar y rheini sy'n cael eu heffeithio'n anuniongyrchol fel teuluoedd a'r gymuned leol. Er bod cynlluniau iechyd cyhoeddus helaeth i ddelio ag effaith digwyddiadau aciwt eraill sy'n effeithio ar gymunedau fel llifogydd, nid oes fframwaith i ymateb i MUEs yn bodoli.

Sut wnaethon ni hyn?

Cwblhaodd tîm y prosiect adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth academaidd a llwyd, ac fe luniodd 12 astudiaeth achos o ymatebion i MUEs. Gwnaethant hefyd gyfnewid â 23 o unigolion â phrofiad o MUEs ar draws wyth gwlad i goladu dysgu ar weithredu ymateb i MUEs nad yw'n aml yn cael ei adlewyrchu mewn llenyddiaeth academaidd.

I ba gasgliadau y daethon ni?

Cynhyrchodd yr astudiaeth ddealltwriaeth gynhwysfawr o effaith iechyd a chymdeithasol diweithdra torfol. Roedd hyn yn cynnwys:

- effaith niweidiol ar iechyd corfforol a meddyliol wedi'i gyfyngu trwy (i) colli incwm uniongyrchol a thlodi, (ii) y digwyddiad llawn straen a'r pryder cynyddol a cholli hunan-barch dilynol, a (iii) cynnydd mewn ymddygiad hunanddinstriol, megis ysmegu, yfed alcohol a cheisio hunanladdiad;
- caledi ariannol i'r aelwyd ac aelodau'r teulu, yn ogystal â rheoli straen a sicrhau ailgyflogaeth, gydag effaith andwyol ar ddeinameg teuluol;
- effeithiau ehangach ar y gymuned leol trwy fwy o gystadleuaeth yn y marchnadoedd llafur, rhwydweithiau cymdeithasol yn datgysylltu, ac i ryw raddau, trawma emosïynol, sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth leol.

Nododd yr astudiaeth fod angen dull ataliol tymor hwy trwy:

- rhagolygon economaidd y marchnadoedd llafur byd-eang a lleol er mwyn diwallu anghenion yn y dyfodol yn well a sicrhau datblygu cyflogaeth gynaliadwy;
- datblygu sgiliau yn y gweithlu fel sylfaen hanfodol ar gyfer adeiladu adferiad economaidd, a sicrhau bod y rhai anfedrus hefyd yn cael eu cefnogi i atal ehangu anghydraddoldebau cymdeithasol;
- buddsoddi mewn seilwaith a phroses gynllunio strategol gref gan bob prif randdeilad, er mwyn gosod y sylfaen ar gyfer adferiad economaidd;
- cyflogwyr mwy cyfrifol yn gymdeithasol ynglŷn â rheoli ailstrwythuro;
- adeiladu gwydnwch seicolegol mewn unigolion a chymunedau i ymdopi ag effaith siociau economaidd.

Beth a newidiwyd o ganlyniad i'r ymchwil hwn?

Cynhyrchwyd fframwaith ymateb wedi'i lywio gan iechyd cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar bawb sy'n cael eu heffeithio trwy fynd i'r afael â'r anghenion iechyd a seicogymdeithasol, ochr yn ochr ag ailgyflogaeth a chymorth ariannol. Rhannwyd y fframwaith yn eang ar draws iechyd cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i lywio ymarfer. Bydd hyn yn helpu i greu'r dystiolaeth i gryfhau dull ataliol o ran effaith MUEs gan gynnwys sut orau i adnabod a chefnogi'r ardaloedd hynny sydd mewn perygl o MUEs.



I gael gweld adroddiad yr astudiaeth, ffeithluniau ac astudiaethau achos ewch i:

<https://research.publichealthnetwork.cymru/cy/newyddion-chyllid/ddigwyddiadau-diweithdra-torfol/>

Cyflawni'r Strategaeth Ymchwil

Yn 2015, lansiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Strategaeth Ymchwil dair blynedd i helpu i ddatblygu fframwaith a diwylliant cefnogol ar gyfer ymchwil iechyd o ansawdd uchel yn canolbwyntio ar anghenion cleifion a'r cyhoedd. Ei nod yw adeiladu gallu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymgymryd ag ymchwil a chynyddu dealltwriaeth o weithgareddau ymchwil yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r Strategaeth Ymchwil hon yn amlygu pedwar maes gweithredu allweddol (Blwch 2).

Blwch 2. Y pedwar maes gweithredu allweddol ar gyfer y Strategaeth Ymchwil



1. Datblygu sgiliau ymchwil staff o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru

2. Helpu i greu gwybodaeth newydd

3. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill

4. Cyfathrebu'n effeithiol yr hyn rydym yn ei wybod



I ddarllen y Strategaeth Ymchwil ewch i:

[http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWRandDDocs.nsf/\(\\$All\)/EF57488CEF6E186480257EFC0036FAD1/\\$File/PHW%20Research%20Strategy%20report%20\(W\).pdf?OpenElement](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWRandDDocs.nsf/($All)/EF57488CEF6E186480257EFC0036FAD1/$File/PHW%20Research%20Strategy%20report%20(W).pdf?OpenElement)

Beth ydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn?

1. Datblygu sgiliau ymchwil staff o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dylai'r holl staff gael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau ymchwil i'w galluogi i gael a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael a chyfrannu at gynhyrchu tystiolaeth sy'n llywio eu hymarfer.

Ers lansio'r Strategaeth Ymchwil, rydym wedi cynnal sesiynau Cinio a Dysgu misol ar gyfer staff ar feysydd o ddiddordeb iechyd cyhoeddus. Hefyd, rydym wedi gweithio gyda sefydliadau eraill GIG Cymru i ddatblygu model sydd yn cefnogi ymchwil iechyd cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar anghenion y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol¹³. Ymhellach, rydym wedi datblygu'r *Hot House* Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus¹⁴ a chymuned ymchwil rithwir¹⁵ i hyrwyddo rhwydweithio.



13 Mae gan bob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru ddim iechyd cyhoeddus lleol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am rôl y timau hyn yma: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/44970>

14 Mae hwn yn adnodd pwrpasol, wedi'i gynnal gan Brifysgol Bangor, sy'n anelu at ymateb i anghenion ymchwil sy'n dod i'r amlwg yn unol ag Amcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddarparu cyswllt â rhwydweithiau academaidd yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu ymwneud Iechyd Cyhoeddus Cymru ag ymchwil a rhaglenni ymchwil o ansawdd uchel.

15 Mae hwn ar gael yn: <https://research.publichealthnetwork.cymru/cy/>

2. Helpu i greu gwybodaeth newydd

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi datblygu gwybodaeth ymchwil newydd a bydd yn gweithio i sicrhau bod gweithgarwch ymchwil yn canolbwyntio ar feysydd pwysig ar gyfer Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru, mewn meysydd penodol megis gordewdra yn ystod plentyndod, ysmegu, gwella iechyd a llesiant meddwl a lleihau anghydraddoldebau.

Rydym wedi cefnogi prosiectau cydweithredol megis *Doeth am Iechyd Cymru*¹⁶ sy'n cysylltu ynghyd data iechyd a gofal cymdeithasol a gesglir fel mater o drefn i werthuso rhaglenni a pholisïau iechyd cyhoeddus. Mae ein hymchwil ar ACEs wedi cael effaith sylweddol ar Gymru ac wedi arwain at fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ymhellach ag effaith ACEs. Yn ogystal, arweiniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gais llwyddiannus i Gronfa Trawsnewid Cyngor y Prif Heddweision Cenedlaethol i gefnogi ymestyn Rhaglen Arloesi Heddlu De Cymru¹⁷ i ddull Cymru gyfan.

Cliciwch yma i ddarganfod mwy a chofrestru ar gyfer Doeth am Iechyd Cymru



3. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgymryd ag ymchwil mewn cydweithrediad ag eraill, gan weithredu fel partner effeithiol a gweithredol. Trwy hyn, bydd y sefydliad yn ennill manteision gwell mynediad at safbwyntiau, arbenigedd ac adnoddau newydd a gwahanol. Gall hefyd gynnig cipolwg i bobl eraill ar feysydd gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, lle gellir trosi ymchwil yn ymarfer.



Rydym wedi cynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff Iechyd Cyhoeddus Cymru o gyfleoedd a manteision gan wasanaethau cymorth allanol fel y *Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil*¹⁸ ac *Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru*. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi cynhadledd hyfforddi flynyddol Cymru ar gyfer Cofrestryddion Arbenigol Iechyd Cyhoeddus (Ymgynghorwyr dan hyfforddiant). Fel sefydliad rydym wedi cryfhau a chreu partneriaethau cydweithredol gydag academia i hyrwyddo cyfleoedd ymchwil cydweithredol trwy brosiectau a gomisiynwyd (gweler Blwch 3) a lleoliadau gwaith myfyrwyr.

Yn ogystal, rydym wedi cefnogi nifer o fentrau gan gynnwys *Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth* i gydlynu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Blwch 3. Gweddnewid Bywydau Ifanc ledled Cymru: Golwg ar y Ddadl Economaidd o blaid Buddsoddi yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ariannu ymchwil a wneir gan sefydliadau eraill gan fod hyn yn ein galluogi i ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd nad ydynt ar gael yn y sefydliad, i'n helpu i weithredu'n effeithiol ac i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus. Mae hefyd yn cynnig y cyfle i fesur effaith ymchwil a gwasanaethau ar Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru yn annibynnol. Comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Brifysgol Bangor, Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau, i gynhyrchu'r adroddiad *Gweddnewid Bywydau Ifanc ledled Cymru: Golwg ar y Ddadl Economaidd o blaid Buddsoddi yn y Blynyddoedd Cynnar*, a oedd yn edrych ar y dystiolaeth economaidd ar neilltuo adnoddau'r sector cyhoeddus i gefnogi'r plentyn, y teulu cyfan a'r gymuned ehangach. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2016 ac mae ar gael trwy'r linc canlynol:

<http://cheme.bangor.ac.uk/reportspublications.php.cy>

16 Menter Iechyd a Gofal Cymru yw *Doeth am Iechyd Cymru* ar gyfer astudiaeth carfan Poblogaeth Genedlaethol Cymru, a fydd yn ymgysylltu â phoblogaeth Cymru i gymryd rhan weithredol mewn ymchwil i wella iechyd a llesiant. Ei nod yw recriwtio pobl sy'n byw yng Nghymru neu'n defnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru i ddarparu data, gan greu llwyfan ar gyfer datblygu a gwerthuso ymchwil, polisi a gwasanaethau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://www.healthwisewales.gov.wales/landingPage.php>

17 Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2016. *Iechyd cyhoeddus ar flaen y gad gyda phrosiect plismona arloesol De Cymru*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/newyddion/41047> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

18 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) ar gael i weithwyr proffesiynol y GIG a gofal cymdeithasol sy'n cwrdd â'r isafswm meini prawf cymhwyster ac yn darparu arweiniad a chyngor i alluogi ymchwilwyr i asesu potensial syniad ac i ddatblygu syniad ar gyfer astudiaeth neu dreial yn effeithiol hyd at y pwynt gwneud cais am gyllid. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://www.ymchwiliechydagofal.llyw.cymru/gwasanaeth-cynllunio-a-chynnal-ymchwil/?force=2>



4. Cyfathrebu'n effeithiol yr hyn rydym ni'n ei wybod

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfathrebu'n effeithiol y canfyddiadau o ymchwil i staff o fewn y sefydliad, y rhanddeiliaid a'r cyhoedd i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei defnyddio ar draws y system iechyd cyhoeddus yn y ffordd orau ac y byddwn yn dysgu o ganlyniadau ein hymchwil.

Rydym wedi hwyluso cynadleddau, seminarau a gweithdai yng Nghymru sy'n hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarferwyr ac ymchwilwyr sy'n gweithio ar flaenoriaethau iechyd cyhoeddus ym mhob sector yng Nghymru, megis y digwyddiad Ymchwil yng Nghymru a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Mawrth 2017 (Blwch 4). Rydym hefyd wedi datblygu bwletin newyddion a diweddariadau misol ymchwil a datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru newydd.

Blwch 4. Ymchwil, Polisi ac Ymarfer Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cynhadledd Gweithio Gyda'n Gilydd yng Nghymru

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr ail gynhadledd Ymchwil yng Nghymru yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2017. Dangosodd y gynhadledd peth o'r ymchwil iechyd cyhoeddus diweddaraf yng Nghymru a rhoddwyd sgysiau gan nifer o unigolion allweddol ym maes iechyd cyhoeddus, gan gynnwys Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru. Mae cyflwyniadau a nodiadau o'r gynhadledd ar gael yn: <https://research.publichealthnetwork.cymru/cy/newyddion-chyllid/public-health-research-policy-and-practice-working-together-wales-conference/>

Sut mae ymchwil yn cael ei lywodraethu a'i gefnogi yn y sefydliad?

Mae'n rhaid i'r holl brosiectau ymchwil sy'n cynnwys staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth neu adnoddau dderbyn caniatâd ymchwil gan y GIG¹⁹ cyn cael eu gwneud ac yna cael eu rheoli a'u monitro'n briodol yn unol â Fframwaith Polisi newydd y DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae tîm Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru (Ymchwil a Datblygu) yn rheoli proses caniatâd ymchwil y GIG ar gyfer yr holl ymchwil a wneir ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a hefyd mae'n rhoi cyngor i ymchwilwyr o ran paratoi ceisiadau ar gyfer cyrff adolygu eraill, megis Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG²⁰.



19 Rhaid i 'ganiatâd rheoli'r GIG' (a elwir hefyd yn 'gymeradwyaeth ymchwil a datblygu' neu 'ganiatâd ymchwil a datblygu') gael ei gael gan ymchwilwyr sy'n cynnal ymchwil yn y GIG yng Nghymru ar gyfer pob safle ymchwil GIG a nodwyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth <https://www.hra.nhs.uk/approvals-amendments/>

20 Awdurdod Ymchwil Iechyd. 2017. *Governance Arrangements for Research Ethics Committees*. Ar gael yn: <https://www.hra.nhs.uk/planning-and-improving-research/policies-standards-legislation/governance-arrangement-research-ethics-committees/> [Cyrchwyd 22 Tachwedd 2017].

Cynlluniau'r Dyfodol

Mae yna nifer o raglenni ymchwil cyffrous sydd ar hyn o bryd ar y gweill yn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu y'u disgwylir yn y dyfodol agos.

Dyfarwydd £6.87 miliwn trwy Gronfa Trawsnewid yr Heddlu ar gyfer ymchwil newydd sy'n mynd i'r afael â dull amlasiantaeth wedi'i lywio gan ACEs tuag at bobl sy'n agored i niwed sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac atal achosion craidd yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda gofal sylfaenol ac ysgolion, a Thai Cymunedol Cymru i archwilio datblygu dull wedi'i lywio gan ACEs mewn ymarfer. Mae gwasanaethau microbioleg yn datblygu gwaith o gwmpas heintiau a chlefydau, a'r defnydd o dechnolegau genom newydd. Mae treialon ymyrraeth newydd wedi'u cynllunio, megis y rhai i leihau beichiogrwydd yn yr ardeggau a hybu iechyd rhywiol cadarnhaol. Mae Uned Deallusrwydd a Gwylidwriaeth Canser Cymru (WCISU) yn rhan o'r Bartneriaeth Meincnodi Canser Rhyngwladol. Mae'r cydweithrediad unigryw ac arloesol hwn yn dwyn ynghyd clinigwyr, llunwyr polisi, ymchwilwyr ac arbenigwyr data canser i fesur gwahaniaethau rhyngwladol mewn goroesi canser a nodi ffactorau a allai fod yn gyrru'r gwahaniaethau hyn²¹. Mae WCISU hefyd yn rhan o'r astudiaeth Eurocare²², ac astudiaeth fyd-eang Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain CONCORD-3²³. Yn fwy eang ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, disgwylir hefyd ffrydiau gwaith newydd mewn meysydd megis rhagnodi cymdeithasol, cynladwyedd iechyd, gwydnwch iechyd meddwl a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Cadw'n Iach yng Nghymru: barn y cyhoedd ar iechyd cyhoeddus

Fel rhan o ddatblygu strategaeth 10 mlynedd newydd i gyflawni ei weledigaeth o greu Cymru iachach, hapusach a thecach, ymgymrodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r arolwg barn iechyd cyhoeddus mawr cyntaf yng Nghymru rhwng Medi a Hydref 2017, o'r enw Cadw'n Iach yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys arolwg aelwydydd o 1,000 o drigolion yng Nghymru 16 oed a throsodd ac arolwg ar-lein a oedd yn agored i breswylwyr yng Nghymru, gyda'r nod o gael dealltwriaeth o farn y cyhoedd ar iechyd cyhoeddus. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn llywio ymarfer iechyd cyhoeddus yng Nghymru a byddant yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2018.

Diolchiadau

Datblygwyd yr adroddiad hwn gan Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fe'i cydlynwyd gan Laura Evans, Dr Mark Griffiths, a Claudine Anderson. Diolch hefyd i Dr Alisha Davies, yr Athro Mark Bellis, Dr Gill Richardson a'r holl staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi cyfrannu at y ddogfen hon. Rydym yn ddiolchgar am eu cyfraniad a'u hadborth gwerthfawr.

Cyfeiriadau

Davies AR, Homolova L, Grey C, Bellis MA. 2017. *Digwyddiadau Diweithdra Torfol (MUE) - Atal ac Ymateb o Bersectif Iechyd Cyhoeddus*. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd ISBN 978-1-910768-42-6. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Watermarked%20PHW%20Mass%20Unemployment%20Report%20W%2812%29.pdf> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. 2017. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Ar gael yn: <https://futuregenerations.wales/cy/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol/> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. <https://www.ymchwiliachydgofal.llyw.cymru/?force=2>

Canolfan Genedlaethol Ymchwil Iechyd a Lles y Boblogaeth. <https://ncphwr.publichealthnetwork.cymru/cy/>

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017. *Cynllunio Strategol 2017-2020*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Ein%20Cynllun%20Strategol%202017-2020%20V1a.pdf> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016. *Cyhoeddiadau ACE*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88522/> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016. *Gwneud gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd Cynaliadwy a Llesiant i Bobl Cymru*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/87127/> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2015. *Strategaeth Ymchwil 2015-2018*. Ar gael yn: [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWRandDDocs.nsf/\(\\$All\)/EF57488CEF6E186480257EFC0036FAD1/\\$File/PHW%20Research%20Strategy%20Report%20\(W\).pdf?OpenElement](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWRandDDocs.nsf/($All)/EF57488CEF6E186480257EFC0036FAD1/$File/PHW%20Research%20Strategy%20Report%20(W).pdf?OpenElement) [Mynediad 22 Tachwedd 2017].

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2010. *Rhyngwryd Iechyd Cyhoeddus Cymru*. Ar gael yn: <http://www.publichealthwales.wales.nhs.uk/> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2009. *Fframwaith Llywodraethu Ymchwil ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Ail Argraffiad*. Ar gael yn: <https://www.healthandcarereseach.gov.wales/uploads/Policy%20%26%20Strategy/Research%20Governance/Research%20Governance%20Framework%202009%20%28English%291.pdf> [Cyrchwyd ar 22 Tachwedd 2017].

21 Mae rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth Meincnodi Canser Rhyngwladol ar gael yn: http://www.cancerresearchuk.org/sites/default/files/icbp_showcase_report_web.pdf

22 Mae rhagor o wybodaeth am astudiaeth Eurocare ar gael yn: <http://www.eurocare.it/>

23 Cyfeirir at <http://csg.lshhtm.ac.uk/research/themes/concord-programme/> am ragor o wybodaeth am astudiaeth CONCORD-3.



Gwella Iechyd

Darparu gwybodaeth, cyngor a chymryd camau gweithredu, ar draws sectorau, i hybu iechyd, atal clefydau a lleihau anghydraddoldebau iechyd



Diogelu Iechyd

Darparu gwybodaeth, cyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol



Gwybodaeth Iechyd

Dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth



Microbioleg

Darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

Iechyd Cyhoeddus Cymru yr hyn rydym yn ei wneud

Rydym yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau, yn y meysydd canlynol:



Diogelu

Darparu arbenigedd a chynghor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed



Sgrinio

Darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin



Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig

Cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau



Gwella ansawdd y GIG a diogelwch cleifion

Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion




Manylion cyswllt

Ymchwil a Datblygu

Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol
Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter
Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 02920 104452

E-bost: iechydcyhoedduscymru.ymchwil@wales.nhs.uk

 @lechydCyhoeddus / @PHRWales

 Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwefannau:

www.ymchwiliiechydycyhoeddcymru.co.uk
www.lechydycyhoedduscymru.org/PRID

Ymholiadau'r Cyfryngau


Dylai newyddiadurwyr sydd am gysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ffonio 029 2034 8755 (24 awr). Mae swyddog cyfathrebu wrth law bob amser. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Research and Development

Policy, Research and International Development
Public Health Wales
2 Capital Quarter
Cardiff, CF10 4BZ
Telephone: 02920 104452

Email: PHW.Research@wales.nhs.uk

 @PublicHealthW / @PHRWales

 Public Health Wales

Websites:

www.publichealthresearchwales.co.uk
www.publichealthwales.org/PRID

Media Enquiries

Journalists wishing to contact Public Health Wales should call 029 2034 8755 (24 hours). There is a communications officer on call at all times. Public Health Wales welcomes correspondence in Welsh or English.